# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014-2015

Rheolwr Perthynas: Alun Jones
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ffôn: 0300 062 8382

## Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei lunio gan AGIC fel crynodeb o'r gwaith a wnaed gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u  cyflawni yn sgil ein gwaith yn y bwrdd iechyd hwn, a byrddau iechyd /ymddiriedolaethau eraill fel a ganlyn:

- Caiff profiadau iechyd gofal dinasyddion eu gwella
- Bydd gwybodaeth glir ac amserol ar gael i ddinasyddion, ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd gofal yng Nghymru
- Bydd dinasyddion yn hyderus bod y broses o arolygu a rheoleiddio'r sector iechyd gofal yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, wedi'i chydgysylltu ac yn ychwanegu gwerth.

## Trosolwg

Yn ystod 2014-2015, lluniodd AGIC ffocws i'w rhaglen arolygu er mwyn cwpasu'r GIG yn gyfan yn ôl y math o leoliad ac arbenigedd. Yn ystod y flwyddyn hon, mae AGIC wedi cynnal 28 o ymweliadau i leoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan gynnwys chwe arolygiad urddas a gofal hanfodol (DECI), 14 arolygiad deintyddol, pedwar arolygiad meddyg teulu, dau arolygiad o unedau iechyd meddwl, un ymweliad Deddf Iechyd Meddwl, ac un arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R). Hefyd, mae AGIC wedi cynnal pum archwiliad o farwolaeth yn y ddalfa.

Yn y sector annibynnol, mae AGIC wedi cynnal naw ymweliad ag ardal Abertawe, Bro Morgannwg: mae'r rhain yn cynnwys un arolygiad o uned iechyd meddwl; un ymweliad Deddf Iechyd Meddwl; a saith arolygiad o glinigau laser.

## Prif themâu

Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg yn ystod arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2014-2015.

- Mae cyfraniad y cleifion tuag at arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC, arolygiadau o bractisau deintyddol, ac arolygiadau o bractisau meddyg teulu'n dangos eu bod, ar y cyfan, yn fodlon iawn ar y gofal maent wedi'i dderbyn
- Yn gyffredinol, mae lefelau staffio ar wardiau mewn ysbytai cyffredinol yn briodol er mwyn bodloni anghenion cyfredol y cleifion
- Nid yw'r staff yn defnyddio dull cyson wrth gwblhau dogfennau gofal ac asesiadau risg a ddefnyddir ar wardiau yn yr ysbytai Er bod arsylwadau yn ystod arolygiadau urddas a gofal hanfodol wedi dangos bod y staff yn ymyrryd yn rheolaidd o ran y gofal, nid yw dogfennau gofal ysgrifenedig bob amser wedi cefnogi hyn
- Mae angen i staff sy'n gweithio mewn ysbytai cyffredinol fod yn fwy ymwybodol o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Mae angen i staff sy'n gweithio mewn ysbytai cyffredinol ymgymryd â hyfforddiant mwy penodol ynghylch gofal pobl hŷn
- Nid yw'r gweithdrefnau lleisio pryderon (cwynion) mewn practisau deintyddol a phractisau meddyg teulu wedi cydymffurfio â'r trefniadau *Gweithio i Wella.*

Gwnaethom gynnal arolygiadau o unedau iechyd meddwl yn ysbyty Cefn Coed, ac ysbyty Tywysoges Cymru. Cynhaliwyd ymweliad Deddf Iechyd Meddwl yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot (Ward F). Roedd y prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg fel a ganlyn:

- Gweithlu sy'n ymroddedig i gyflenwi gofal ardderchog
- Roedd ansawdd amgylchedd y cleifion yn amrywio, ac mae angen sylw ar unwaith mewn rhai achosion
- Lefelau staffio annigonol ar rai wardiau
- Cyfraddau amrywiol o bresenoldeb y staff mewn hyfforddiant gofynnol - presenoldeb gwael gan y staff yn ysbyty Tywysoges Cymru (Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig)
- Profiad anghyson i gleifion mewn perthynas â bwyd, gyda rhai o'r cleifion yn aml yn bwyta'r un prydau o fwyd
- Materion sy'n ymwneud â larymau galw'r staff, sy'n effeithio ar ddiogelwch y staff o bosibl
- Pryderon mewn perthynas â phrosesau llywodraethu ac archwilio, yn enwedig ynghylch lefelau staffio a chynnal a chadw amgylchedd y ward
- Roedd y ddogfennaeth statudol a welwyd ar Ward F, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

## Arferion nodedig

Nodwyd nifer o arferion nodedig yn ystod ein harolygiadau.  Amlygir rhai o'r rhain isod.

- Mae *Os Gwelwch Chi – Dywedwch* yn fenter amlwg iawn sy'n annog pobl i adrodd pryderon am ofal gwael. Mae'n darparu nifer o ffyrdd o wneud hyn, gan gynnwys yr opsiwn o wneud hyn yn gyfrinachol.
- Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi cyflwyno'r Gwasanaeth Cyswllt Cynghori Cleifion (PALS). Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu bum diwrnod yr wythnos, gan ddarparu cyngor a chymorth i gleifion i'w helpu i ddatrys pryderon sydd ganddynt am y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.
- Mae ysgol gymalau yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth cyn asesiad ar gyfer cleifion sy'n derbyn llawdriniaeth adnewyddu cymalau dewisol. Caiff y cleifion wybod beth i'w ddisgwyl cyn ac ar ôl llawdriniaeth, â'r bwriad o ostwng arhosiadau ysbyty i gleifion mewnol, a chymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth.

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

Dangosodd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer 2013-2014 fod y sefydliad wedi datblygu cynllun tymor canolig, a'i fod yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gwella trwy ei raglen Newid er y Gwell. Mae'r bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella trwy ei bwyllgorau, a cheir tystiolaeth bod y staff yn cymryd rhan mewn prosiectau gwella. Ymddengys fod y bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored, sy'n canolbwyntio ar ansawdd, ond mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy mewn rhai meysydd, gan gynnwys gosod dysgu sefydliadol.

## Ymgysylltu

Ym mis Awst 2014, cyfarfu Rheolwr Perthynas AGIC a'r Cyfarwyddwr Clinigol â Chyfarwyddwr Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i drafod cylch gwaith AGIC a'i dull o gyflenwi arolygiadau urddas a gofal hanfodol. Ym mis Rhagfyr 2014, cyfarfu Prif Weithredwr AGIC, Kate Chamberlain, a'r Rheolwr Perthynas, â'r Prif Weithredwr a'r Chadeirydd. Roedd yr ymweliad hwn yn rhan o raglen o gyfarfodydd cyswllt, gan ddarparu cyfle i AGIC leisio unrhyw faterion gyda byrddau iechyd, trafod rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol, a derbyn adborth ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r ffordd mae AGIC yn cynnal ei gwaith.

## Adolygiadau ac Archwiliadau Arbennig

Yn ystod 2014-2015, cyfrannodd AGIC at bum adolygiad o farwolaeth yn y ddalfa (dau wedi'u hachosi gan yr unigolyn a thri achos naturiol) sy'n ymwneud â Charchar Parc. Prif ganfyddiad AGIC o'r adolygiadau hyn oedd bod apwyntiadau ysbyty'n cael

eu colli neu eu canslo, oherwydd nad oedd swyddogion tywys y carchar ar gael. Argymhellwyd y dylai'r staff meddygol sy'n atgyfeirio'r carcharorion fod yn gyfrifol am gymryd camau dilynol am yr apwyntiadau ysbyty hyn, er mwyn sicrhau bod yr apwyntiadau'n cael eu hail-drefnu. Mae'r berthynas rhwng Carchar Parc ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gwella.

Mae AGIC wedi canfod bod y gofal lliniarol a ddarperir gan Garchar Parc yn rhagorol, a gellid ei ddefnyddio fel enghraifft i'r carchardai eraill ddysgu ohono.

Cynhaliwyd adolygiad gan gymheiriaid o ganser gastroberfeddol uwch ar 18 Medi 2014, ac o ganlyniad roedd yn angenrheidiol i AGIC ysgrifennu at y bwrdd iechyd i amlinellu nifer o bryderon dybryd. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:

- Diffyg cynnydd sylweddol mewn cynlluniau ad-drefnu llawfeddygol gan gynnwys diffyg cydweithio agos rhwng y prif lawfeddygon ar fodel gwasanaeth clinigol i'r dyfodol.
- Diffyg arweinyddiaeth glinigol
- Dim sicrwydd y cytunwyd a rhannwyd amcanion ar gyfer y gwasanaeth, a dim tystiolaeth bod timau'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion ynghylch canlyniadau neu ansawdd.

Mewn perthynas â'r materion hyn, cafodd AGIC a Rhwydwaith Canser De Cymru gydnabyddiaeth o'r materion a leisiwyd a sicrwydd gan y bwrdd iechyd bod cynnydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn. Nodwyd bod arweinyddiaeth glinigol gref yn dod i'r amlwg ynghyd â'r awydd i ddatrys y mater hirsefydlog a heriol o gyflenwi gwasanaeth Canser Gastroberfeddol Uwch. Ym mis Medi 2014, cytunodd cyfarfod pwyllgor mewnol y bwrdd iechyd llawn ar gynigion ar gyfer proses i ddatblygu a chytuno ar fodel gwasanaeth newydd, lle mae safonau ac amcanion clir yn seiliedig ar asesiad o'r gofynion.

## Camau dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

### Camau dilynol

Cyhoeddodd AGIC adroddiad ar ôl pob arolygiad, ac roedd pob adroddiad yn cynnwys cynllun sy'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mhob achos, mae'r bwrdd iechyd neu'r practisau'n cyflwyno cynlluniau gwella amserol gan amlinellu eu hymatebion i'r argymhellion ynddynt. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol a nodwyd ei fod yn rhoi digon o sicrwydd i AGIC. Mae hyn naill ai am eu bod wedi mynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd, a/neu roedd tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion.

Bydd AGIC yn parhau i fonitro'r cynnydd y mae'r byrddau iechyd neu'r practisau yn ei wneud wrth fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r arolygiad. Lle mae camau gweithredu o fewn cynlluniau gwella heb eu cwblhau

a/neu wrthi'n cael eu cwblhau, mae hefyd disgwyl i’r bwrdd iechyd neu'r practis roi gwybod i AGIC am y sefyllfa ddiweddaraf, i gadarnhau pan fyddant wedi mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Sicrwydd ar unwaith**

Ni chyflwynwyd unrhyw lythyron sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i arolygiadau urddas a gofal hanfodol. Cyflwynodd AGIC ddau lythyr sicrwydd ar unwaith mewn perthynas ag adolygiadau o unedau iechyd meddwl a gynhaliwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Cefn Coed. Ymatebwyd i'r llythyron hyn yn amserol. Roedd y pryderon a fynegwyd fel a ganlyn:

Ysbyty Cefn Coed:

- Dim lefelau staffio na diogelwch digonol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff
- Drws tân a oedd wedi torri ac a oedd dan glo.

Ysbyty Tywysoges Cymru

- Lefelau staffio annigonol i gynnal lefelau gofal diogel
- Pryderon ynghylch claf penodol lle nad oedd digon o gofnodion ynghylch yr hyn roedd wedi’i yfed, a chynllun gofal a thriniaeth nad oedd yn cyfeirio at ddiabetes yn ddigonol, a dim strategaeth gofal mewn perthynas â hyn.

Gwnaeth AGIC dderbyn a gwerthuso ymatebion i'r ddau lythyr sicrwydd ansawdd, a chafodd sicrwydd bod camau gweithredu addas yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a leisiwyd a dysgu ohonynt.

## Gweithgarwch arolygu

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol

| Math o arolygiad | Lleoliad a dolen i'r adroddiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol | Ysbyty Gorseinon | 17/09/2014 |
| | Ysbyty Tywysoges Cymru | 17/10/2014 |
| | Ysbyty Castell-nedd Port Talbot | 23/10/2014 |
| | Ysbyty Treforys | 26/11/2014 |
| | Ysbyty Singleton | 14/01/2015 |
| | Ysbyty Tywysoges Cymru | 17/02/2015 |
| Arolygiadau deintyddol | Practis Deintyddol Belgrave (Arolygiad peilot) | 20/08/2014 |
| | Practis Orthodontig Abertawe | 02/10/2014 |
| | Practis Deintyddol Victoria Road | 20/10/2014 |
| | Practis Deintyddol Park Street | 04/12/2014 |
| | Practis Deintyddol West Cross | 10/12/2014 |
| | Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais | 21/01/2015 |
| | Gofal Deintyddol Porthcawl | 26/01/2015 |
| | Deintyddfa Townhill | 30/01/2015 |
| | Practis Deintyddol IDH Forge Road | 05/02/2015 |
| | Practis Deintyddol Woodlands | 23/02/2015 |
| | Practis Deintyddol IDH Cilâ | 23/02/2015 |
| | Gofal Deintyddol Vale View | 24/02/2015 |
| | Eastside Dental | 09/03/2015 |
| | 22 Dental | 11/03/2015 |
| Arolygiadau o feddygon teulu (Ni chyhoeddir adroddiadau arolygu fel y cytunwyd) | Meddygfa Cilâ | 10/11/2014 |
| | Meddygfa Tŷ'r Felin | 12/11/2014 |
| | Canolfan Gofal Sylfaenol Cwmdulais | 03/12/2014 |
| | Meddygfa Bro Ogwr | 11/12/2014 |
| Archwiliad - Marwolaeth yn y ddalfa | Carchar Parc (MP) | 01/05/2014 |
| | Carchar Parc (GJ) | 27/06/2014 |
| | Carchar Parc (NM) | 16/07/2014 |
| | Carchar Parc (DH) | 17/12/2014 |
| | Carchar Parc (KH) | 15/01/2015 |
| RhYÏ(DM) | Ysbyty Tywysoges Cymru | 18/08/2014 |
| Deddf Iechyd Meddwl | Ysbyty Cefn Coed | 17/11/2014 |
| | Ysbyty Tywysoges Cymru | 01/12/2014 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 11/02/2015 |
| Uned Iechyd Meddwl | Ysbyty Cefn Coed | 17/11/2014 |
| | Ysbyty Tywysoges Cymru | 01/12/2014 |

**Gofal Iechyd Annibynnol**

| Math o arolygiad | Lleoliad a dolen i'r adroddiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| Laser | 1192 Laser and Beauty | 10/06/2014 |
| | Beauty Therapy Suite | 10/06/2014 |
| | Clinig Cae Court | 17/06/2014 |
| | The Priory, Pen-y-bont ar Ogwr | 17/06/2014 |
| | Energist, Abertawe | 09/07/2014 |
| | Me:Me Maesteg Beauty Salon | 09/07/2014 |
| | Swansea Laser Clinic | 09/07/2014 |
| Deddf Iechyd Meddwl | Rushcliffe (annibynnol) | 10/02/2015 |
| Uned Iechyd Meddwl | Rushcliffe (annibynnol) | 10/02/2015 |

Dyddiad a gynhyrchwyd: Gorffennaf 2015